# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**24.01.25**




## Gair gan y Pennaeth ~ *Headteacher's Greeting*

Wel, posib nad oes wythnos cweit mor gyffrous â hon wedi bod **erioed** yn Ysgol Gwaelod y Garth! Mae'r plant wedi ymateb yn wych i'r goeden arbennig a ymddangosodd ar yr iard dros y penwythnos ac wedi cydweithio'n rhagorol gyda'r amryw asiantaethau sydd wedi dod atom i ddatrys Dirgelwch y Goeden. Er nad ydym wedi gallu cyfathrebu rhyw lawer gyda chi'r wythnos hon am y digwyddiadau hynod ar safle'r ysgol, gobeithiwn allu gwneud hynny cyn hir wedi cael caniatâd i wneud. Ond yn sicr, mae yma dysgu arbennig wedi dod o'r profiad arbennig ac mae'n glir bod entrepreneuriaid, gwyddonwyr a gwleidyddion egwyddorol y dyfodol ymhlith ein disgyblion. Rydym wedi rhyddhau lluniau ar Google Classrooms ac fe rhannwn ymhellach yr wythnos nesa.

Mae neges bwysig isod i bawb hoffai gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni, boed hynny'n canu, llefaru, dawnsio, celf a chrefft neu arall. Cofiwch bod rhaid bod yn aelod o'r Urdd i gymryd rhan.

Braf iawn yw gallu bod yn rhan o brosiect newydd i gefnogi banc bwyd lleol trwy gydweithio gyda Garth Rotary a'r Trussell Trust. Byddwn yn casglu eitemau banc bwyd ar ddydd Gwener ola pob mis. Gallwch gyfrannu wrth gatiau'r ysgol neu yn y bocsys casglu sydd wedi'u gosod ar draws y pentre. Diolch i bwyllgor Dinasyddion y Dyfodol sydd wedi creu poster i rannu'r wybodaeth (gweler isod).

♥ Cofiwch ddychwelyd eich calonnau Santes Dwynwen i'r ysgol ar Ddydd Llun pan y byddwn yn agor a darllen y calonnau gyda'r plant. ♥ Bydd Dydd Llun hefyd yn ddiwrnod lle nad oes rhaid gwisgo gwisg ysgol wrth i ni hefyd gynnal Disgos Santes Dwynwen ♥ Edrychwch islaw am fersiwn hyfryd o stori Santes Dwynwen i'w ddarllen gyda plant wrth ddathlu yfory, Ionawr 25. Dydd Santes Dwynwen hapus i chi gyd ♥

- - - - -

Well, there may **never** have been a week quite as exciting before at Ysgol Gwaelod y Garth! The children have responded brilliantly to the special tree that appeared in the yard over the weekend and have worked admirably with various agencies this week to solve the Tree Mystery. We have not been able to communicate with you this week about the remarkable events on our school premises, but hope to have permission to share more soon. There have certainly been some amazing experiences and learning opportunities this week and we can confidently say that we have principled entrepreneurs, scientists and politicians of the future amongst our pupils. We have released some photos on Google Classrooms and will share more next week.

There is an important message below for everyone who would like to compete at this year's Urdd Eisteddfod, whether that be singing, speaking, dancing, arts and crafts or else. Remember that you **must** be a member of the Urdd to participate.

Finally, it's really great to be able to be part of a new project to support a local food bank by working with **Garth Rotary** and the Trussell Trust. We collect food bank items on the last Friday of each month. You can donate at the school gates or in the collection boxes placed across the hamlet. Thanks to the Future Citizens committee who have created a poster to share the information (see below).

♥ Please return your **Santes Dwynwen** hearts to school by Monday at the very latest when we will open and read the hearts with the children. ♥ Monday will also be a day where school uniforms are not required as we hold Santes Dwynwen Discos ♥ Santes Dwynwen will be celebrated across Wales tomorrow, January 25. Please see below for a brief version of the story and its meaning to share with your children. Dydd Santes Dwynwen hapus i chi gyd ♥

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**27.1.25**
Disgos Santes Dwynwen
(dim gwisg ysgol)
*(no school uniform)*

**31.1.25**
Gwasanaeth Dosbarth 3C
3C Class Assembly

**31.1.25** (Gwener / Friday)
Bws Beics Nesa'
*Next Bike Bus*

**31.1.25** (Gwener / Friday)
Casgliad Banc Bwyd
Food Bank Collection


**5.2.25 @ 9.15am**
Cyfarfod Rheini (pawb) – **Dulliau Adferol**
*Parents Meeting (all parents)*
***Restorative Approaches***

**Chwefror 6-7**
**February 6-7**
Taith Preswyl B4
(Urdd Bae Caerdydd)
*Year 4 Residential*
*(Urdd Centre, Cardiff Bay)*

**Mawrth 26-28**
**March 26-28**
Taith Preswyl B5
*Year 5 Residential*
(Call of the Wild)

---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.
*Our live calendar is available to download on our school website's homepage.*




**Dyddiadau Bws Beics Tymor y Gwanwyn**
***Spring Term Bus Bike Days***

31.1.25
14.2.25

7.3.25
21.3.25
4.4.25



# Eisteddfod yr Urdd

Mae Eisteddfodau Cylch, Sir a Chenedlaethol yr Urdd ar y gorwel. Os am gystadlu, cofiwch bod **RHAID** bod yn aelod yr Urdd. Mae hyn yn berthnasol i bob cystadleuaeth, e.e. canu, llefaru, dawnsio, celf a chrefft, gwaith cartref, ac ar gyfer cystadlaethau unigol neu grŵp. Mae hefyd angen bod yn aelod os yn cystadlu yn enw'r ysgol neu beidio (gan gynnwys grwpiau eraill fel G-Dance).

Er mwyn ymaelodi â'r Urdd, ewch i Porth yr Urdd: https://www.urdd.cymru/en/join/

Er mwyn helpu'r plant i gyd i ddysgu darnau'r Urdd, rydym wedi creu Gwefan Eisteddfod yr Urdd Gwaelod y Garth 2025. Diolch yn fawr i **Mr Jones** am ei waith arbennig ar hwn. Dyma'r ddolen: https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-gynradd-gwaelod-y-garth?usp=sharing

\- - -

The Urdd District, County and National Eisteddfodau are fast approaching. If you wish to compete, remember that you MUST be a member of the Urdd. This applies to all competitions, e.g. singing, recitation, dancing, arts and crafts, homework, and also to individual or group competitions. Children must also be a member if competing in the name of the school or not (including other groups such as G-Dance).

To join the Urdd, visit Porth yr Urdd: https://www.urdd.cymru/en/join/

To help all the children learn the pieces of the Urdd, we have created the Gwaelod y Garth Urdd Eisteddfod 2025Website. Huge diolch to **Mr Jones** for his fabulous work on this. Here is the link: https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-gynradd-gwaelod-y-garth?usp=sharing

Rotary

Trussell
Ending hunger together

# Tin On The Wall!

**Casgliad ar ddydd Gwener olaf pob mis. Rydym yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad!**

**Rydym yn derbyn:**

- Grawnfwydydd
- Cawl mewn tun
- Pasta neu reis
- Saws pasta
- Tomatos mewn tun
- Ffa pob mewn tun
- Cig mewn tun
- Pysgod mewn tun
- Llysiau mewn tun
- Pwdin reis mewn tun
- Ffrwythau mewn tun
- Te neu goffi
- Llaeth hir oes
- Sudd neu sgwash
- Bisgedi
- Byrbrydau
- Jam



**Mae'r bocsys Tin on the Wall wedi'u lleoli yn...**

1. Ysgol Gwaelod y Garth
2. Neuadd y pentref
3. Gwaelod y Garth Inn

Rotary

Trussell
Ending hunger together

# Tin On The Wall!

**Collection on the last Friday of every month. Please donate and give what you can. All donations welcome!**

**We accept:**

- Breakfast cereals
- Tinned soup
- Pasta or rice
- Pasta sauce
- Tinned tomatoes
- Tinned baked beans
- Tinned meat
- Tinned fish
- Tinned vegetables
- Tinned rice pudding
- Tinned fruit
- Tea or coffee
- Long life milk
- Juice or squash
- Biscuits
- Snacks
- Jam or spread



**The Tin on the Wall boxes are located in...**

1. Gwaelod y Garth primary school
2. Gwaelod y Garth Village Hall
3. Gwaelod y Garth Inn

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week






## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week

# Stori Santes Dwynwen

1



Un tro, amser maith yn ôl roedd tywysoges hardd o'r enw Dwynwen...

2



...Roedd hi'n ferch i'r brenin Brychan Brycheiniog a oedd wedi trefnu iddi briodi tywysog pwysig.

3



... Ond, roedd Dwynwen mewn cariad dros ei phen â'i chlustiau efo tywysog arall, o'r enw Maelon Dafodrill.

4



...Felly, aeth at ei thad i ddweud wrtho nad oedd hi eisiau priodi'r tywysog roedd o wedi ei ddewis.

menter iaith Castell-nedd Port Talbot
Cyswllt: 01639 763819 | menter@micnpt.cymru | Rhif Cwmni 6156176

5



... "Does dim ots gen i," meddai ei thad, "mae'n rhaid iti briodi'r tywysog rydw i wedi ei ddewis!"

6



... Rhedodd Dwynwen at Maelon yn crïo, a dywedodd: "Mae'n rhaid i mi briodi tywysog arall!"

7



...Pan glywodd Maelon hyn, gwylltiodd a dweud wrthi nad oedd byth eisiau ei gweld hi eto.

8



Torrodd Dwynwen ei chalon yn llwyr. Roedd hi mor drist, aeth i fyw ar ei phen ei hun mewn coedwig.

menter iaith Castell-nedd Port Talbot
Cyswllt: 01639 763819 | menter@micnpt.cymru | Rhif Cwmni 6156176

9



...Yn y goedwig, roedd hi'n unig ac yn ddigalon. Gweddïodd ar Dduw i'w gwella hi o'i chariad at Maelon.

10



...Yna, un noson tra roedd hi'n cysgu, daeth angel at Dwynwen a rhoi diod arbennig iddi i'w gwella.

11



... Dechreuodd Dwynwen freuddwydio. Yn y freuddwyd, mi welodd hi'r angel yn rhoi diod i Maelon hefyd a chafodd ei droi yn ddarn o rew.

12



...Yna, cafodd Dwynwen dri dymuniad: toddi Maelon o'r rhew, gwneud cariadon Cymru yn hapus a gwneud yn siŵr na fyddai hi byth eisiau priodi.

menter iaith Castell-nedd Port Talbot

13



... Daeth y tri dymuniad yn wir a phenderfynodd Dwynwen rhoi ei bywyd i wasanaethu Duw ac edrych ar ôl cariadon Cymru.

14



...Sefydlodd eglwys ar ynys wrth ymyl Niwbwrch, sy'n cael ei alw heddiw yn Ynys Llanddwyn a daeth yn nawddsant cariadon Cymru.

15



... a heddiw, mae cariadon yng Nghymru yn dathlu diwrnod Santes Dwynwen ar Ionawr 25, ac yn gyrru cardiau serch i'w gilydd.

## The Story of Santes Dwynwen

Did you know that Wales has it's very own patron Saint of Love which we celebrate on January 25th? Our Welsh saint of love is Santes Dwynwen and there is a poignant story to tell.

Dwynwen was said to be the prettiest of the 24 daughters of **Brychan Brycheiniog**, the king of Brecon (South Wales). She fell passionately in love with **Maelon** Dafodrill who was denied her hand in marriage by her father as a more suitable match had already been arranged. Maelon took his anger out on Dwynwen and left her in a fit of rage.

She ran away to the ancient woodlands, fell to the ground and cried herself to sleep asking God to free her from her heartache. While sleeping she dreamt an angel came and told her Maelon would no longer trouble her as he had been turned into a block of ice.

The angel then granted her **three wishes**.

Her first wish was for Maelon to be thawed.

The second was for true love to be protected in her name for all the lovers of Wales.

Her third wish was that she would never again fall in love, nor marry.
All three of her wishes came true.

Dwynwen left home to prevent her father from making her marry for power or greed. She then became a nun and travelled Wales, setting up churches and praying for those troubled in love.

So much can be derived from this story. One is that even though her heart was broken, she still believed in the power of love, and another is that you can live your life in love even if you are standing alone. The common ground is the belief that love is a feeling, an emotion and an act that needs protecting and celebrating in any way we can. ❤